OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 453 (Cy.49)

ARBED YNNI, CYMRU

Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed - - - -	*24 Chwefror 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*26 Chwefror 2010*
Yn dod i rym - -	*22 Mawrth 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 15 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990(**1**), sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy o ran Cymru(**2**).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2010.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 22 Mawrth 2010 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2007(**3**).

Diwygio'r prif Reoliadau

2. Diwygir y prif Reoliadau yn unol â rheoliadau 3 i 7.

Diwygio rheoliad 2 (dehongli)

3.—(1) Yn rheoliad 2 hepgorer y diffiniad o "HEES" a'r diffiniad o "HEES a Mwy".

(2) Yn rheoliad 2, yn y mannau priodol, mewnosoder y diffiniadau canlynol—

"ystyr "Rheoliadau 2007" ("*the 2007 Regulations*") yw Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Tystysgrifau ac Arolygiadau) (Cymru a Lloegr) 2007 (O.S. 2007 Rhif 991);";

(**1**) 1990 p. 27; diwygiwyd adran 15 gan adran 142 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (p. 53).
(**2**) Cyfarwyddodd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fod y swyddogaethau o dan adran 15 i fod yn arferadwy o ran Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yr un pryd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi (p. 32), mae'r swyddogaethau hynny'n arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(**3**) O.S. 2007 Rhif 375 (Cy. 35).

"mae i "cyfraddiad ased" yr ystyr a roddir i "asset rating" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2007;".

Ychwanegu rheoliad 2A newydd

4. Ar ôl rheoliad 2 mewnosoder—

2A. Ystyr "HEES" a "HEES a Mwy"

(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), ystyr "HEES" ("*HEES*") yw darparu gweithfeydd a ddisgrifir yn rheoliad 6(1)(a) i (f).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), ystyr "HEES a Mwy" ("*HEES Plus*") yw darparu gweithfeydd a ddisgrifir yn rheoliad 6(1)(a) i (h).

(3) Yn achos annedd—

(a) sydd mewn perchnogaeth breifat neu sy'n cael ei rhentu'n breifat; a

(b) y mae'r asiantaeth ardal yn fodlon bod y cyfraddiad ased ar ei chyfer yn 38 neu lai,

ystyr "HEES" ("*HEES*") yw darparu gweithfeydd a ddisgrifir yn rheoliad 6(1); ac ystyr "HEES a Mwy" ("*HEES Plus*") yw darparu gweithfeydd a ddisgrifir yn rheoliad 6(1).

Diwygio rheoliad 5 (personau a gaiff wneud cais am grant)

5.—(1) Yn rheoliad 5(1)(c) ac (ch), yn lle "£15,460" rhodder "£16,040".

(2) Yn lle rheoliad 5(4)(ch) rhodder—

(ch) pensiwn anabledd rhyfel fel y'i diffinnir gan adran 159B(6) o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 neu bensiwn am anabledd o dan Ran II o Orchymyn Pensiynau Lluoedd Arfog y Llynges, y Fyddin a'r Llu Awyr etc. (Anabledd a Marwolaeth) 2006, neu unrhyw ddyfarniad o bensiwn anabledd rhyfel y mae ei effaith yn parhau yn rhinwedd Atodlen 4, paragraff 8 i'r Gorchymyn hwnnw ynghyd ag—

(i) tâl atodol o ran symudedd o dan erthygl 20 o Orchymyn Pensiynau Lluoedd Arfog y Llynges, y Fyddin a'r Llu Awyr etc. (Anabledd a Marwolaeth) 2006 (gan gynnwys y cyfryw dâl atodol sy'n daladwy yn rhinwedd cymhwyso'r erthygl honno gan unrhyw gynllun neu orchymyn arall) neu o dan Erthygl 25A o Gynllun Anafiadau Personol (Dinasyddion Preifat) 1983 (gan gynnwys yr erthygl honno fel y'i cymhwysir gan erthygl 48A o'r cynllun hwnnw), neu daliad a fwriedir fel iawndal am fethiant i dalu tâl atodol o'r fath; neu

(ii) taliad o dan reoliadau a wnaed o dan baragraff 7(2)(b) o Atodlen 8 i Ddeddf 1992 (lwfans gweini cyson).

Diwygio rheoliad 6 (y dibenion y caniateir cymeradwyo grant ar eu cyfer)

6.—(1) Yn rheoliad 6(1)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (i), yn lle ".", rhodder ";".

(b) ar ôl is-baragraff (i) mewnosoder—

"(j) darparu inswleiddiad waliau solet.".

(2) Yn rheoliad 6(2)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (b), yn lle ".", rhodder ";".

(b) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

"(c) y fath fân weithfeydd at ddibenion—

(a) gwella inswleiddiad thermol annedd; neu